



Tracey Meredith
Prif Swyddog Cyfreithiol a Swyddog Monitro
Cyngor Abertawe

Tracey.meredith@swansea.gov.uk

1 Mawrth 2019

Annwyl Tracey

Trefniadau ar gyfer Prif Weithredwr dros dro

Fe gafodd eich e-bost dyddiedig 8 Chwefror, gyda'r llythyr eglurhaol a dogfennau ategol ynghylch eich cynnig am Brif Weithredwr dros dro, ei ystyried gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror. Roedd holl aelodau'r Panel yn bresennol ac felly roedd y cyfarfod yn gwneud cworwm.

Mewn perthynas â swyddogaeth y Panel yn ymwneud â chyflogau prif swyddogion, mae'r cylch gwaith a'r canllawiau gan Lywodraeth Cymru yn caniatáu i'r Panel wneud y canlynol:

- a) Cymeradwyo'r cynnig
- b) Mynegi pryderon am y cynnig
- c) Argymell amrywiad i'r cynnig

Ar ôl edrych ar gyflwyniad eich awdurdod, penderfyniad y Panel yw cymeradwyo'r cynnig fel y'i cyflwynwyd i Brif Weithredwr dros dro eich awdurdod gael cyflog o £83,000 am gyfnod o dri mis.

Yn gywir

John Bader

Cadeirydd